

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR PERSONÉL 10 Ebrill 2018

Presennol
Cadeirydd Cyng C Williams

I C Thomas , E R Hughes, E Lovgreen, S Sage

1. Ymddiheuriadau

A Hopcyn

2. Datgan Buddiant Personol

E R Hughes ar eitem Gisda

3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc) er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau.

Dim

4. Materion staffio

Trafodwyd eitem 4 a 6 ynghyd gan bod y ddau yn mynd law yn llaw

Cefndir oedd bod ni yn edrych i mewn i lefelau staffio priodol

Roedd y clerc wedi derbyn templed swydd disgrifiad Rheolwr digwyddiadau Conwy ond gofynnwyd iddi derbyn manylion swyddi Biwmares a Conwy i gyd er mwyn cymharu ei adnoddau nhw a ni

Nododd y clerc bod nifer o cynghorau cyfagos wedi cael gwerthuso swyddi presennol a cytunwyd i neud hyn (clerc am ceisio cael pris cyn y Cyngor Llawn)

Roedd y pwyllgor a'r clerc yn awyddus i cofnodi diolch i Gwyneth a'r Cynghorwyr wnaeth cadw'r lle yn tician drosodd yn ystod cyfnod salwch y clerc

Penderfynwyd

- bod angen dechrau talu bob dim trwy BACs fydd yn arbed lot fawr o amser i Gwyneth ,Y Maer ,a Dirprwy .
- edrych i fynd yn Cyngor di bapur o safbwynt rhaglen cyfarfodydd – yn gweithio yn dda iawn i rhai or is bwyllgorau ar hyn o bryd
- prynu anrheg/neu voucher i Gwyneth i cydnabod gwerthfawrogiad

5. Rhaglen Waith

Cadeirydd a'r clerch i creu templed fydd yn haws na'r fersiwn ola , a sicrhau bod pethau ddim aros arno am fwy na 6 mis

6. Gwersi o absenoldeb y Clerch

Wedi trafod o dan eitem 4

7. Rhaglen 'Active Inclusion' i gyflogwyr

Cefnogi'r syniad mewn egwyddor ar clerch i ystyried a hawl i weithredu os yn teimlo bod yn realistig gan ystyried pethau fel GDPR (catalogio a clirio) neu digwyddiad Nadolig fel cynllun perthnasol

Gorffennodd y cyfarfod am 18.30

Arwyddwyd Dyddiad

